# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw*
# *Harbour Consultative Committee*

## *07 Hydref/October 2008*

***Adroddiad yr Uned Forwrol – Maritime Unit Report***

***1 - <u>Morwriaeth / Navigation</u>***

***1.1*** Ar yr 12fed Fedi 2008, fe archwiliwyd yr holl Gymhorthion Mordwyo yn harbwr Abermaw gan swyddog Tŷ'r Drindod . Adroddwyd gan yr archwiliwr bod yr holl gymhorthion mordwyo mewn cyflwr derbyniol ac nid oedd yna unrhyw ddiffygion eleni.

***1.2*** Mae'r holl gymhorthion mordwyo a fu yn uniongyrchol gyfrifol gan y Cyngor wedi bod yn gyson ar eu safle yn ystod tymor yr haf gan eithrio cymhorthydd mordwyo Rhif 2, a ddaeth oddi ar ei safle dau ddiwrnod cyn cychwyn cystadleuaeth Ras y Tri Pigyn. Fe osodwyd y cymhorthydd mordwyo ar ei safle oddi fewn pum diwrnod.

***1.3*** Mae cyflwr un cymhorthydd mordwyo, sef cymhorthydd y 'Clwyd' wedi gwaethygu dros fisoedd yr haf ac fe fydd yn anorfod bod yr Uned Forwrol yn adnewyddu'r cymhorthydd cyn dechrau'r tymor nesaf. Fe fydd angen cynlluniau manwl ar gyfer y cymhorthydd ac fe fydd angen adnabod cyllid ar gyfer y gost oddi fewn cyllideb yr Uned Forwrol.

***1.4*** Bwriedir cychwyn rhaglen waith cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref, ac fe fydd y llusernau a'r bwiau yn cael eu cynnal unwaith yn rhagor. Mae amcan gost y gwaith yn £1,500 ac fe fydd angen cymorth contractwr er cwblhau rhannau o'r gwaith.

***2 – Datblygiadau Harbwr***

***2.1*** Er bod yn ddymunol lleoli pontŵn wrth ochr y brif lithrfa, nid yw wedi bod yn bosibl adnabod cyllid ar gyfer y gwaith unwaith yn rhagor eleni. Fe fydd yr Harbwr Feistr yn parhau i geisio amcan bris am bontŵn ail law er ceisio cynnig gwelliannau bychan ar gyfer morwyr yn harbwr Abermaw. Rhaid atgoffa Aelodau na ellir cyllido pryniant y pontŵn o'r gyllideb refeniw.

***2.2*** Archwiliwyd y brif lithrfa yn ystod y gwanwyn, ac fe ddaethpwyd i'r canlyniad na fod yna angen cynnal a chadw'r llithrfa. Ymddengys bod defnyddio ôl gerbydau gydag olwynion addas yn lleihau'r difrod a fu eisoes yn cael ei achosi i arwyneb y llithrfa.

***2.3*** Mae'r bibell sydd yn berchen Dwr Cymru ac sydd wedi ei gosod gyferbyn a'r brif lithrfa'r harbwr ar gyfer arllwys dŵr llygredig mewn argyfwng, yn parhau i achosi anhawster i gychod sydd wedi angori gerllaw. Mae'r Uned Forwrol eisoes wedi cysylltu â Dwr Cymru yn gofyn caniatâd i gwtogi'r bibell ond hyd yma, nid oes caniatâd wedi ei dderbyn.

***2.4*** Cwblhawyd gwaith atgyweirio arwyneb cei'r harbwr yn ystod mis Ebrill. Roedd cyfanswm gost y gwaith yn ***£2750***.

***2.5*** Ar gychwyn tymor y gwanwyn, fe achoswyd difrod i ysgolion a fu wedi eu lleoli ar wal y cei gyferbyn a swyddfa'r harbwr. Achoswyd y difrod gan gwch a fu wedi angori ar y wal dros fisoedd y gaeaf ac fe roedd cyfanswm cost atgyweirio'r difrod a fu wedi ei achosi i'r ysgolion yn **£480**.

***2.6*** Mae angorion cychod ar gyfer ymwelwyr ac angorion eraill ym mherchenogaeth y Cyngor wedi eu harchwilio a'u cynnal a chadw cyn dechrau'r tymor hwylio. Roedd cost y gwaith hwn yn ***£530***. Cafodd bwiau parth cyflymdra eu gosod ger traeth Abermaw a thraeth Y Friog. Roedd cyfanswm cost gosod y bwiau parth cyflymdra yn **£400**, ac fe fydd yna gost debyg ynghlwm ar gyfer adfer y bwiau.

Roedd cyfanswm cost cadwyni newydd ar gyfer cynnal a chadw angorfeydd a chynnal a chadw cymhorthion mordwyo Abermaw yn **£2,331** eleni.

## *3 – <u>Gwasanaeth Ysgraff</u>*

***3.1*** Yn ystod 2008, bu i'r Uned Forwrol awdurdodi dwy 'Drwydded Perchennog', a saith 'Trwydded Cychwyr' ar gyfer gwasanaeth ysgraff rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn.. Golygai hyn bod nifer yr ysgraff a fu yn drwyddedig ar gyfer cludo teithwyr yn llai eleni a'r nifer o gychwyr a fu wedi eu trwyddedi yn uwch na llynedd.

## *4 – <u>Digwyddiadau / Events</u>*

***4.2*** Ar y 28ain o Fehefin, cynhaliwyd cystadleuaeth Ras y Tri Pigyn. Roedd yna bedwar ar hugain o gychod yn cystadlu yn y ras.

***4.3*** Yn anffodus fe fu rhaid gohirio cystadleuaeth y cychod rhwyfo Celtaidd a fu wedi ei drefnu i'w gynnal ar yr 22ain Fehefin. Yn ystod mis Awst, fe drefnwyd digwyddiad hwylio hynod lwyddiannus a fu yn creu cyfle i bobl ifanc Abermaw gymryd rhan mewn gweithgareddau hwylio. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan y Clwb Hwylio.

***4.4*** Enillodd traeth Abermaw'r Faner Las Ewropeaidd unwaith eto yn 2008. Bydd yr Uned Forwrol yn cyflwyno eu cais ym mis Tachwedd ar gyfer y wobr traeth yn 2009.

## *5 – Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics*

***5.1*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***871*** o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn **2008**, ac mae hyn mewn cymhariaeth â ***1040*** yn **2007**, sef **169** yn llai eleni.. Nodi'r bod nifer o Fadau Dwr Personol a Chychod Pŵer a fu wedi cofrestru yn Harbwr Abermaw wedi lleihau yn sylweddol yn ystod **2008** mewn cymhariaeth a **2007**, sef **69** Bad Dwr Personol yn llai. Cofrestrwyd **32** bad dwr personol yn harbwr Aberdyfi.

***5.2*** Fel a nodi'r yn y tabl, cofrestrwyd **92** o gychod pŵer yn harbwr Abermaw, ac fe gofrestrwyd ***40*** cwch pŵer yn harbwr Aberdyfi eleni. Mae ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn ***£15.00*** drwy'r post, neu ***£20.00*** ar y traeth, neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio yn ***£12.00*** y dydd neu ***£130.00*** am y tymor drwy gais post, neu ***£150*** am hawlen dymhorol drwy gofrestru mewn person yn swyddfa'r harbwr.

***5.3*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***104*** o gychod wedi angori yn yr harbwr eleni, sef naw cwch yn llai na llynedd, a 24ain yn llai na **2006**. Mae 61 yn fath cwch hwylio, gyda 41 yn gwch pŵer.
Cyn y Nadolig, bydd yr Harbwr Feistr yn cysylltu gyda phob perchennog cwch a fu wedi gadael yr harbwr er ceisio gwybodaeth am y rheswm pam na fu i'r cwch gael eu hangori yn Abermaw yn ystod 2008/09.

## *6 Canlyniad Barn Cwsmer / Analysis of Customer Questionnaire*

Fe fydd adroddiad barn Cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn y cyfarfod cyntaf yn 2009.

## *7 Cyllidebau / Budgets*

***7.1*** Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllideb derfynol harbwr Abermaw ***am y flwyddyn ariannol 2007/08***. Atodir hefyd cyllid gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn ariannol **2008/09**.

***7.2*** Bydd angen bod yn wyliadwrus er sicrhau na fod yr Uned Forwrol yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac fel y sylwir, fe fydd angen cwtogi ar wariant yn harbwr Abermaw dros fisoedd y gaeaf.

Mae gofyn bod yr Harbwr Feistr yn paratoi rhaglen waith manwl ar gyfer tymor yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant a blaenoriaethau adnoddau staff gan sicrhau bod holl waith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau ymhell cyn dechrau'r tymor yn **2009**.

***7.3*** Mae targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol yn ***£53,530.*** Hyd yma, mae cyfanswm incwm harbwr Abermaw wedi ei gyrraedd ***£34,204*** sef ***£19,326*** yn fyr o'r targed. Ni ragwelir bydd yna ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth ***2009.***

## ***8*** ***<u>Deddf Harbwr / Harbour Act</u>***

Yn ddiweddar, cafwyd ymholiad ynglŷn â diffiniad cymal a fu wedi ei gynnwys oddi fewn deddf harbwr Abermaw 1797. Fel y bu Aelodau yn ymwybodol, cafodd Deddf Harbwr Abermaw 1797, sef Deddf ar gyfer atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r harbwr eu hailosod gyda Deddf Cyngor Trefol Abermaw 1929.

Cafodd rhai rhannau o Ddeddf Harbwr Abermaw 1797 eu diddymu, ac fe gafodd rhai rhannau o Ddeddf Cymal Harbyrau, Dociau a Phier 1847 eu hymestyn, a'u cynnwys oddi fewn Deddf Cyngor Trefol Abermaw 1929.

Mae Deddf Cyngor Trefol Abermaw 1929 yn trosglwyddo cyfrifoldeb yr harbwr oddi wrth Ymddiriedolwyr, ac yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cyngor.

Golygai hyn bod gan y Cyngor, yn unol â deddf 1929, y pŵer ar gyfer atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r harbwr. Nid yw'r ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r harbwr.

Er hynny, fe fydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw gyfle ar gyfer gwella neu ddatblygu'r harbwr yn cael sylw ar wahân i'r uchod.